

LLINELL AMSER

Cymeriadau a Digwyddiadau yng Nghymru

Dyma linell amser yn cynnwys rhai o gymeriadau a digwyddiadau Cymru o gyfnod Caradog ac ymosodiad y Rhufeiniaid ar y Brythoniaid at yr Ail Ryfel Byd.




Caradog

Caradog yn brwydro yn erbyn ymosodiad y Rhufeiniaid ar y Brythoniaid.



Llywelyn ap Gruffydd (Llywelyn ein Llyw Olaf)


Mae Llywelyn yn cael ei adnabod fel arweinydd olaf Cymru unedig. Yn 1255, ar gais nifer o arweinwyr blaenllaw Cymru, daeth Llywelyn yn Dywysog ar Gymru. Lladdwyd ef gan filwyr Edward I ar 11eg o Ragfyr 1282 yng Nghilmeri lle saif cofeb iddo heddiw.



Y Pla Mawr

Mae'r Pla Mawr yn dechrau lledu drwy Gymru.
O fewn blwyddyn, bu farw traean o'r boblogaeth.

1588



William Morgan

Argraffwyd cyfieithiad Cymraeg William Morgan
o'r Beibl ar gais Brenhines Elizabeth I.
Credir bod hyn wedi achub yr iaith Gymraeg.

1839



Terfysgoedd Merched Beca

Ar 1af o Fai yn y flwyddyn hon, ymosodwyd ar y tolldy yn Efailwen, Sir Gaerfyrddin gan griw mawr o ddynion wedi eu gwisgo mewn dillad merched a'u hwynebau wedi duo. Ffermwyr blin oedd y rhain yn protestio am y tollau a godwyd er mwyn teithio ar hyd y ffyrdd. Bu sawl achos tebyg ar hyd a lled De-orllewin Cymru tan 1843 gan gynnwys rhoi toll dai ar dân tan y diddymwyd y tollau yn 1843.

1847



‘Welsh Not’

Cyhoeddwyd adroddiad tyngedfennol am addysg yng Nghymru a adnabyddir heddiw fel ‘Brad y Llyfrau Gleision.’ O ganlyniad i’r adroddiad fe gyflwynwyd arfer greulon y ‘Welsh Not’ yn ysgolion ledled Cymru. Cosb oedd y ‘Welsh Not’ i blentyn a siaradai Gymraeg gyda’i ffrindiau yn yr ysgol. Gorfodwyd y plentyn i wisgo bwrdd pren o gwmpas ei wddf a’r llythrennau W.N. arno. Byddai’r plentyn yn gallu trosglwyddo’r bwrdd i blentyn arall byddai’n siarad Cymraeg.

1854



Betsi Cadwaladr

Gweithiodd Betsi Cadwaladr gyda Florence Nightingale yn gofalu am filwyr yn Rhyfel y Crimea. Yn groes i ddymuniad Florence Nightingale, mynnodd Betsi fynd yn nes at yr ymladd er mwyn helpu'r milwyr oedd wedi eu hanafu waethaf ar faes y gad yn Balaclava.

1865



Mimosa

Ar 28ain o Fai yn y flwyddyn hon, hwyliodd llong y 'Mimosa' o Lewpwl ar ei mordaith hir a pheryglus i Batagonia gan gario 160 o Gymry yn chwilio am fywyd gwell. Cyrhaeddodd y llong Borth Madryn ar 28ain o Orffennaf ac ar ôl cerdded am bedwar diwrnod cyn cyrraedd yr afon, sefydlwyd cymuned Gymraeg ym Mhatagonia sydd dal yno heddiw.

1917



Hedd Wyn

Enillodd y bardd Ellis Humphrey Evans neu Hedd Wyn (1887-1917) fel ag yr adnabyddir, y gadair yn eisteddfod Penbedw. Cafodd ei ladd yn Pilkem Ridge yn Ffrainc yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, a gorchuddiwyd y gadair â lliain du.

1939



Yr Ail Ryfel Byd

Ar 1af o Fedi ymosododd byddin Yr Almaen ar Gwlad Pŵyl ac fe gyhoeddwyd yr Ail Ryfel Byd. Ni ddaeth y rhyfel i ben tan 2il o Fedi 1945 pan arwyddodd Siapan ddogfen yn cadarnhau eu bod yn ildio. Yn ystod chwe blynedd o ryfel cafodd rhwng 50 – 70 miliwn eu lladd ledled y byd. Daeth tua 110,000 o ifaciwîs o Loegr i Gymru i ddianc rhag y bomio mewn dinasoedd mawr.